

ATODIAD A

# **Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019/20**

**Paratowyd yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg  
(Cymru) 2011**

## Cynnwys

<b>Adran</b>	<b>Teitl</b>	<b>Tudalen</b>
1	Cyflwyniad	3
2	Cwynion	4
3	Sgiliau a Gallu yn y Gymraeg	5
	• Siarad	5
	• Deall	5
	• Ysgrifennu	6
	• Darllen	6
	• Rhugledd yn y Gymraeg yn ôl Cyfarwyddiaeth	6-7
	• Rhugledd yn y Gymraeg yn ôl Math o Gontract	7
4	Hyfforddiant yn y Gymraeg	8
5	Recriwtio: Gofyniad Sgiliau yn y Gymraeg	8
6	Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg	9
	• Amcan 1:	9
	• Amcan 2:	10
	• Amcan 3:	12

## 1. Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r pumed Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg a gynhyrchwyd dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Mae'r tabl islaw'n rhoi manylion y gofynion ar gyfer yr adroddiad yma:

<b>Meysydd</b>	<b>Safon a/neu is-adran perthnasol</b>
<p><b>Cwynion</b> Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn sy'n cyfeirio at gydymffurfiaeth â'r safonau yr oedd dyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	147,148, 156, 158(2), 162, 164(2), 168(a), 170 (2), (d)
<p><b>Sgiliau yn y Gymraeg</b> Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ddilynol (lle'n berthnasol, i'r graddau yr oedd dyletswydd i gydymffurfio gyda'r safonau y cyfeirir atynt) - (a) Nifer y gweithwyr cyflogedig sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion y gwnaethoch eu cadw yn unol â safon 151)</p>	170(2)(a) 151
<p><b>Hyfforddiant yn y Gymraeg</b> Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ddilynol (lle'n berthnasol, i'r graddau y mae dyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)- (a) Nifer aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (yn unol â Safon 128) (b) Os cynigiwyd fersiwn Cymraeg o gwrs yn unol â safon 128, canran cyfanswm nifer y staff yn mynychu'r cwrs a fynychodd y fersiwn hwnnw.</p>	152, 170 (2) (b)
<p><b>Recriwtio</b> Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ddilynol (lle'n berthnasol, i'r graddau y mae dyletswydd i gydymffurfio'r safonau y cyfeirir atynt) – (ch) nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorio fel swyddi lle – (i) roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, (ii) roedd angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl penodi i swydd, (iii) roedd sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu (iv) nad oedd angen sgiliau yn y Gymraeg (ar sail y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â safon 154).</p>	170 (2)(ch) 154

## 2. Cwynion

Mae Safonau 158, 164 a 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cyfeirio at gydymffurfiaeth gyda safonau darparu gwasanaeth, safonau gwneud polisi a'r safonau gweithredol y mae dyletswydd i gydymffurfio â nhw.

Mae gweithdrefn Cwynion Corfforaethol yn cofnodi'r holl gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Gellir gwneud cwynion mewn unrhyw fformat (e.e. e-bost, llythyr, yn bersonol, dros y ffôn, cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen). Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion drwy'r system Cwynion Corfforaethol yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Fodd bynnag, yn ystod cyfnod yr adroddiad, derbyniodd y Cyngor un gŵyn yn cyfeirio at ddyletswydd cydymffurfiaeth ar gyfer y Cyngor.

Dyddiad y Gŵyn	Cwyn	Gweithredu
30 Ionawr 2020	<b>CSG700:</b> Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad ar Gyngor Blaenau Gwent ar 10 Mawrth 2020. Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â chwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd ynghylch gohebiaeth a gafodd yr achwynydd mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth. Roedd y gŵyn oherwydd bod oedi cyn derbyn ymateb i'r cais a gyflwynwyd ganddynt yn Gymraeg a bod yr ymateb yn cynnwys rhywfaint o destun uniaith Saesneg.	<b>Canlyniad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg</b>  Mae'r achos yn dal i gael ei ymchwilio oherwydd bod gwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg wedi'i oedi ar 17 Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig Cenedlaethol COVID-19. Cyflwynwyd tystiolaeth ynglŷn â'r gŵyn i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i'w hystyried a bydd penderfyniad ynghylch pa gamau priodol y mae'n rhaid eu cymryd yn cael ei gwblhau ym mis Hydref 2020.

### 3. Sgiliau a Gallu yn y Gymraeg

Mae Safon 170 yn gofyn am nifer y gweithwyr cyflogedig sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw.

Darparwyd y wybodaeth yn yr adran hon gan y Tîm Datblygu Sefydliadol drwy ddefnyddio system iTrent y Cyngor ac mae'n dangos gallu staff yn y Gymraeg fel ar 31 Mawrth 2020.


Mae gan staff y gallu a'r cyfrifoldeb i gynnal eu cofnodion staff eu hunain. Y ffigur sylfaen ar gyfer y data yw 2,891 o staff ar restr sefydliad y Cyngor (cynnydd o 10 staff o'r flwyddyn flaenorol).

#### Siarad Cymraeg

Roedd nifer y gweithwyr cyflogedig gyda sgiliau siarad Cymraeg ar 31 Mawrth 2020 yn 573 (19%) o staff; gallant siarad 'yn rhugl', 'eithaf da', 'canolig' neu 'ychydig'. Fodd bynnag, mae ychydig dros hanner cyfanswm y staff yn datgan nad oes ganddynt unrhyw allu Siarad Cymraeg (54%). Mae nifer a canran y staff an all deal, siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg yn amrywio ychydig rhwng pob cymharydd, a dangosir hynny yn y graffiau islaw:


#### Siart 1: Siarad Cymraeg

Siarad Cymraeg	Nifer staff
Rhugl	41
Cymedrol	154
Eithaf Da	18
Ychydig	360
Dim Gallu	1,570
Dim Ymateb	767
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,891</b>



#### Siart 2: Deall Cymraeg

Deall Cymraeg	Nifer staff
Rhugl	42
Cymedrol	178
Eithaf Da	28
Ychydig	402
Dim Gallu	1,536
Dim Ymateb	725
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,891</b>




Ability to speak Welsh	Number of Staff
Fluently - 41	41
Moderately - 154	154
Quite Well - 18	18
A Little - 360	360
No ability - 1570	1,570
No response - 767	767
<b>Total</b>	<b>2,891</b>

Understand Welsh	Number of staff
<b>A Little</b>	402
<b>Fluently</b>	42
<b>Moderately</b>	178
<b>No ability</b>	1536
<b>Quite Well</b>	28
<b>No response</b>	705
<b>Total</b>	<b>2891</b>


### Siart 3: Ysgrifennu Cymraeg

Ysgrifennu Cymraeg	Nifer staff
Rhugl	37
Cymedrol	125
Eithaf Da	20
Ychydig	291
Dim Gallu	1,606
Dim Ymateb	830
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,891</b>



### Siart 4: Darllen Cymraeg

Darllen Cymraeg	Nifer staff
Rhugl	41
Cymedrol	145
Eithaf Da	26




Ychydig	307
Dim Gallu	1,591
Dim Ymateb	799
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,891</b>

Mae'r graffiau uchod yn dangos fod y ffigurau yn debyg iawn ar draws pob un o'r 4 maes sgiliau. Mae'r canran o staff sy'n dweud eu bod yn 'rhugl' yn 1%, gyda'r ganran sy'n dweud fod ganddynt 'ddim gallu' rhwng 53%-55%. Mae bron chwarter y staff (22%) yn ystyried fod ganddynt allu i Ddeall Cymraeg, tra mai dim ond 16% sydd â'r gallu i Ysgrifennu Cymraeg gyda 18% yn nodi gallu i Ddarllen Cymraeg ac ychydig mwy (20%) yn gallu Siarad Cymraeg.

### Siaradwyr Cymraeg Rhugl yn ôl Cyfarwyddiaeth


Mae'r graffiau a'r tablau dilynol yn dangos gwasgariad corfforaethol Siaradwyr Cymraeg Rhugl yn ôl Cyfarwyddiaeth a Math o Gontract.

Addysg sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl (31) a nodwyd nad oes unrhyw staff sy'n dweud eu bod yn rhugl o fewn Gwasanaethau Corfforaethol.



Gallu Siarad Cymraeg							
Cyfarwyddiaeth	Dim Ymateb	Dim Gallu	Ychydig	Eithaf Da	Cymedrol	Rhugl	Cyfanswm
Gwasanaethau Corfforaethol	56	222	15	1	6	0	300
Addysg	361	590	242	15	112	31	1,340
Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol	177	476	68	0	14	5	735
Gwasanaethau Cymdeithasol	188	345	68	2	24	7	631
<b>Cyfanswm</b>	<b>767</b>	<b>1,570</b>	<b>360</b>	<b>18</b>	<b>154</b>	<b>41</b>	<b>2,891</b>

Wrth gymharu gydag Adroddiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol, bu gostyngiad yn nifer y staff a ddywedodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (49 yn 2018/19).




Yn gorfforaethol mae sylfaen gweddol dda i annog a chefnogi datblygu sgiliau siarad Cymraeg ein gweithwyr cyflogedig ymhellach, gan fod 154 o staff yn dweud fod ganddynt allu Cymedrol, 18 yn gallu siarad Cymraeg yn 'Eithaf Da' a 360 yn gallu siarad 'Ychydig' o Gymraeg.

### Siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl Math o Gontract

Gallu i Siarad Cymraeg							
Math o Gontract	Dim ymateb	Dim Gallu	Ychydig	Eithaf Da	Cymedrol	Rhugl	Cyfanswm
Cyfnod Penodol	93	48	46	1	17	2	206
Parhaol	539	1,437	277	13	125	36	2,415
Parhaol – Rheoliadau Cyfnod Penodol	13	19	13	1	3		49
Llanw	110	228	53	3	15	5	410
Secondiad		2	1				3
Dros Dro	78	63	30	1	7	3	181
<b>Cyfanswm</b>	<b>767</b>	<b>1,570</b>	<b>360</b>	<b>18</b>	<b>154</b>	<b>41</b>	<b>2,891</b>

Wrth ystyried Math o Gontract y staff hynny a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, mae'r nifer fwyaf (36) ar Gontractau Parhaol, gyda'r gweddill ar gontractau Cyfnod Penodol (2), Llanw (5) a Dros Dro (3). Ychydig o sydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn nhermau, nodir fod 125 o'r staff hynny sy'n dweud fod ganddynt allu 'Cymedrol' i siarad Cymraeg ar gontractau Parhaol, fel y mae 277 o staff Parhaol yn gallu siarad 'Ychydig' o Gymraeg



#### 4. Hyfforddiant yn y Gymraeg



Mae Safon 170 yn gofyn am:

- Nifer aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn;
- Os cynigiwyd fersiwn Cymraeg o'r cwrs yn ystod y flwyddyn canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Cymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cwblhaodd 2 swyddog gwrs hyfforddiant ar-lein Croeso Cymraeg.

Ni chafodd unrhyw gyrsiau eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai nad yw hyn yn syndod gan mai dim ond 15 o'r 2,891 a nododd y Gymraeg fel eu dewis iaith. Mae hwn yn gynnydd cadarnhaol o 12 aelod o staff ers y cyfnod adrodd diwethaf 2018-19.

## 5. Recriwtio - Gofyniad Sgiliau yn y Gymraeg

Mae Safon 170 yn gofyn am nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn wedi eu categorio fel swyddi lle roedd:

- Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,
- Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl penodi i'r swydd,
- Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- Dim angen sgiliau yn y Gymraeg

Yn ystod cwmpas cyfnod yr adroddiad, cafodd cyfanswm o 251 swydd eu hysbysebu gan y Cyngor, gyda 0 swydd yn dweud fod sgiliau yn y Gymraeg yn '**hanfodol**' a 251 swydd yn dynodi fod y Gymraeg yn '**ddymunol**'.

Polisi'r Cyngor yw fod pob swydd yn gwneud y Gymraeg yn 'Ddymunol' fel isafswm gofyniad. Felly ni fydd unrhyw swyddi yn dweud bod 'dim angen' sgiliau yn y Gymraeg. Hefyd, ni chafodd unrhyw swyddi eu rhestru yng nghyfnod yr adroddiad lle dynodwyd fod sgiliau yn y Gymraeg yn sgiliau oedd angen eu dysgu pan gafodd unigolyn ei benodi i swydd.

## 6. Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae Safon 145 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent lunio strategaeth yn rhoi manylion sut fydd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf<sup>1</sup>.

Mae nodau Strategaeth Iaith Gymraeg Blaenau Gwent yn gysylltiedig gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd targed o gynnydd o 44% yn nifer siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen i ni sicrhau 2,324 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol ar ben llinell sylfaen Cyfrifiad 2011 Blaenau Gwent o 5,284. Felly, mae hyn yn gynnydd blynyddol cyfartalog o 70 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol, h.y. 3% o'r ffigur targed o 2,324 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol ym Mlaenau Gwent dros y 33 mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi dynodi'r tri amcan dilynol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg:

- i. Hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn y teuluoedd a'r gymuned;
- ii. Cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith;
- iii. Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

### [Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2017-22](#)

Islaw mae rhai o'r darnau allweddol o waith sy'n mynd rhagddo i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor a chymunedau Blaenau Gwent.

Mae **Amcan 1** Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn dweud: "Bydd y Cyngor yn hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned".

Yn ystod 2019 parhaodd y Cyngor i hyrwyddo digwyddiadau yn ogystal â chyrsgiau ac ysgolion dydd a gynigir gan Menter Iaith, Coleg Gwent a Chymdeithas Gymraeg Gwent ar wefan y Cyngor.

### **Dod yn Ddwyieithog**

Mae'r Cyngor wedi paratoi llyfryn yn hyrwyddo ac yn sicrhau fod rhieni yn llwyr ymwybodol o addysg cyfrwng Cymraeg a'r opsiynau gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt. Nod y llyfryn yw ateb cwestiynau, trin materion o gonsyrn a rhoi sylw i fanteision bod yn ddwyieithog. Mae'r llyfryn hefyd yn mapio llwybr clir ar gyfer plant ar hyd y blynyddoedd ysgol o addysg feithrin, i ysgolion cynradd ac uwchradd a thu hwnt.

Mae'r ddogfen yn cael ei hadolygu'n flynyddol ac wedi'i rhannu â theuluoedd darpar ddisgyblion ysgol BG a'i hyrwyddo trwy lyfryn Dechrau Ysgol BG sy'n cyd-fynd â derbyniadau ysgol. Rhennir y llyfryn hefyd trwy weithwyr iechyd proffesiynol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a phartneriaid/gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ac addysg Gymraeg yn lleol. Mae copi o'r llyfryn ar gael yn:

### [Llyfryn Bod yn Ddwyieithog](#)

Mae **Amcan 2** Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn dweud: "Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith".

### Cynllun Strategol Addysg Gymraeg

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Blaenau Gwent ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Gellir crynhoi'r amcanion strategol a amlygir yn nogfen ddrafft WESP ar gyfer y tair blynedd nesaf fel sy'n dilyn:

- Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2020 i gyfrannu at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Cynyddu darpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw rhieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg gan 50% yn 2020.

- Gweithio'n rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol yn y De-ddwyrain i sicrhau lleoedd ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2017-2020 a thu hwnt.
- Gwella deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn 2020 fel bod dysgwyr yn codi eu nodau ac yn gwella eu cyfleoedd bywyd.

Cymeradwywyd WESP Blaenau Gwent yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Blaenau Gwent oedd y Cyngor cyntaf a'r unig Gyngor yn rhanbarth Cyngor De-ddwyrain Cymru ar y pryd, i gael y cynllun wedi'i gymeradwyo heb unrhyw welliannau pellach.

Ochr yn ochr ag adolygiad o'r WESP, adolygwyd strwythur, aelodaeth a dogfennaeth gysylltiedig Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) Blaenau Gwent a'u cryfhau bob blwyddyn. Symleiddwyd y cylch gorchwyl ac mae bellach yn adlewyrchu ffocws a chylch gwaith y grŵp.

Cynhaliwyd 4 cyfarfod WEF trwy gydol y flwyddyn academaidd 2018/19 gydag aelodaeth, presenoldeb ac ymgysylltu yn gwella ar y blynyddoedd blaenorol. Mae partneriaid wedi gwneud sylwadau ar effeithiolrwydd y Fforwm, sydd yn ei dro wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chanlyniadau. Sefydlwyd Is-grŵp Cyfathrebu WEF hefyd, gyda gwaith ac arfer da partneriaid ynghyd ag ymgysylltu, hyfforddi a chyfleoedd eraill yn cael eu hyrwyddo a'u monitro trwy'r Cynllun Cyfathrebu a threfniadau cysylltiedig.

Y Rheolwr Trawsnewid Addysg yw cadeirydd Is-grŵp Cynllunio Rhanbarthol Lleoedd Ysgol a Galw Fforwm Strategol WEF. Mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau/meysydd gwaith canlynol:

- Cydlynu Trefniadau Arolwg Galw cyfrwng Cymraeg
- Canlyniad a Dadansoddiad Ymgynghori
- Hyrwyddo a Chyfathrebu
- Adolygiad Rhanbarthol o Ddarpariaeth Gynradd ac Uwchradd, Grant Cyfrwng Cymraeg a Chynigion Band B
- Cynlluniau Ymgynghori a Hyrwyddo

Gwnaed cynnydd da mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg trwy gydol 2019, ynghyd â'r prosesau a'r partneriaethau cysylltiedig gan gynnwys Fforwm Cymraeg mewn Addysg, sy'n sail i'w gyflawni.

Mae 5 o'r prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:

1. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr, ynghyd â'r rhai sy'n ceisio am le yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn parhau i gynyddu, gyda thuedd gadarnhaol wedi'i nodi dros y 3 blynedd diwethaf mewn perthynas â'r meithrin a'r derbyn. Yn ogystal, mae'r cyfraddau trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd yn parhau i fod yn uwch na 95%.
2. Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cryf, gan dargedu a hyrwyddo buddion bod yn ddwyieithog, tra hefyd yn sefydlu dulliau priodol o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn llywio blaenoriaethau strategol allweddol.

3. Mae Blaenau Gwent wedi llwyddo i gydlynu cynllunio is-grwpiau Consortia Deddwyrain Cymru (SEWC) dros y 2 flynedd ddiwethaf. Yn ystod sesiwn academiaidd 2018/19, cydlynodd y grŵp drefniadau arolwg galw a threfniadau hyrwyddo cysylltiedig. Mae hyn wedi arwain at ranbarth SEWC â data galw i gefnogi cynigion ar gyfer twf a datblygiad yn rhanbarthol ac unwaith eto, i lywio cynllunio strategol.
4. Mae cynrychiolaeth, presenoldeb ac amlder cyfarfodydd WEF wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda phartneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i effeithiolrwydd Fforwm Blaenau Gwent ac maent yn ei gydnabod. Mae partneriaid wedi canmol gwaith WEF BG fel enghraifft o arfer da.
5. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cryfhau'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol ar gyfer Siaradwyr Cymraeg ym Mlaenau Gwent; cynyddu cyfleoedd ar gyfer, ymgysylltu gyda, a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau anffurfiol.

Ar ran Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Aled Roberts adolygiad cyflym o Gynlluniau arfaethedig yr awdurdod lleol yn 2017. Roedd yr adolygiad yn cydnabod yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau cynlluniau unigol, ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Amlygodd yr adolygiad yr angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau er mwyn egluro cyfrifoldebau a disgwyliadau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

Amlygodd yr adolygiad yr angen am newid sylweddol yn nulliau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol tuag at gynllunio, er mwyn llwyddo yn unol â nod LIC i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nododd yr adolygiad fod y gofynion a'r canllawiau deddfwriaethol sydd ar waith ar hyn o bryd yn annigonol, a arweiniodd at Lywodraeth Cymru yn adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau ar gyfer 2021 ymlaen, a'r flaenoriaeth oedd creu fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau strategol tymor hir.

Yn dilyn y cyfnod drafftio a'r cyfnod ymgynghori dilynol, gosodwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, ynghyd â'r canllawiau drafft ar 5 Rhagfyr 2019 a daethant i rym ar 1 Ionawr 2020.

Rhaid i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu Cynllun 10 mlynedd drafft cyntaf i Weinidogion Cymru ar 31 Ionawr 2022, gyda'r cynllun yn weithredol o fis Medi 2022. Bydd WESP Cyfredol BG yn parhau mewn grym tan y dyddiad hwnnw.

### **Cynnig Grant Cyfrwng Cymraeg**

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 16eg Ionawr 2018 y byddai £30 miliwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymroddedig i'r Gymraeg a thyfu'r Gymraeg mewn addysg, (gweinyddir y grant yn ychwanegol at y dyraniadau cyfalaf a gadarnhawyd ym Mand B). Roedd angen cynigion i greu gwerth a chyfrannu at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cychwynnwyd y broses ymgeisio am grant ym mis Mawrth 2018. Derbyniodd Cyngor Blaenau Gwent gadarnhad ym mis Hydref 2018, eu bod wedi llwyddo i sicrhau £6 miliwn wrth greu darpariaeth gynradd ychwanegol.

Gohiriwyd y prosiect yn gynnar yn 2019, hyd nes y cynhelir trafodaethau rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar lefel uwch, ynghylch goblygiadau refeniw. Ar ôl adolygiad ariannol manwl, penderfynwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r tîm Gweithredol /Arweinyddiaeth Gorfforaethol ym mis Chwefror 2020 y gallai'r prosiect symud ymlaen i'r cam ymgynghori statudol yn amodol ar adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol yn nhymor yr

hydref 2020. Felly, mae llinell amser ddiwygiedig wedi'i chynhyrchu yn unol â'r gweithredu arfaethedig. Bydd y llinell amser a dilyniant y prosiect yn ddarostyngedig i'r broses ymgynghori statudol.

Mae **Amcan 3** Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi y bydd y Cyngor yn anelu i "Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle".

Mae'r Cyngor wedi hyrwyddo cwrs ar-lein Croeso Cymraeg ymysg staff. Mae'r cwrs Croeso Cymraeg yn gwrs 10 awr ar-lein a gynlluniwyd ar gyfer pobl sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, sy'n ystyried fod ganddynt 'ddim gallu' neu'n gallu siarad 'ychydig' neu fel cwrs gloywi/datblygiad pellach ar gyfer rhai sy'n siarad yn 'eithaf da'. Yn ystod 2019 hyrwyddwyd y cwrs ac mae 2 aelod o staff wedi cofrestru ar y cwrs.

O safbwynt ysgol, mae pob pennaeth yn ymwybodol o'r angen i gynllunio ar gyfer datblygu iaith staff a'r angen i gynnwys Cymraeg mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol. Yn ogystal, mae ysgolion BG wedi cymryd rhan mewn archwilio sgiliau iaith staff ac anghenion hyfforddi trwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), ac yn ymgysylltu â dysgu proffesiynol dan arweiniad canolog.

Dros y 2 sesiwn academaidd ddiwethaf mae ymarferwyr wedi'u recriwtio i fynychu'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ogystal, recriwtiwyd ymarferwyr o'r rhanbarth i fynychu Cynllun Sabothol amser llawn Cymraeg mewn Blwyddyn Prifysgol Caerdydd.

### **Ymgysylltu Arweinyddiaeth Wleidyddol**

Mae Arweinydd y Cyngor/Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Corfforaethol yn parhau i fod â chyfrifoldeb portffolio am y Gymraeg a Chydraddoldeb. Lle bo hynny'n briodol, ystyrir y Gymraeg a Chydraddoldeb yn wleidyddol drwy'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol, y Pwyllgor Gweithredol a, lle'n briodol, gan y Cyngor.

### **Ymgysylltu Arweinyddiaeth Broffesiynol**

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwyr a phob Pennaeth Gwasanaeth ac yn cynnwys yr holl uwch swyddogion. Y Tîm hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer elfen gorfforaethol y Cyngor. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd hunanarfarniad trwy archwiliad mewnol o gydymffurfiaeth, lle'r oedd yn ofynnol i bob Pennaeth Gwasanaeth adrodd ar weithredu'r Safonau. Dirprwywyd y cyfrifoldeb am weithredu'r Safonau yn effeithlon i staff ar draws yr holl gyfarwyddiaethau ac adrannau, ac felly roedd yr archwiliad yn gyfle i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol fod yn sicr o gydymffurfiaeth. Canfu'r archwiliad fod yna 'sicrwydd rhesymol'. Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer cefnogi gwelliannau pellach i'w weithredu yn ystod 2020-21.

Mae'r Tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu a monitro'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yn fisol, gan roi adroddiadau bob tymor i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg (WEF) ac adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, aiff adroddiadau ar ddatblygu a chynnydd y Fforwm drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn ffocws allweddol ym Mwrdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Fforwm Mynediad.

## **Y Tîm Polisi**

Mae'r tîm Polisi yn cefnogi, cyngori a llywio arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol ar bob mater yn ymwneud â'r Gymraeg. Parhaodd Tîm Polisi y Cyngor i gynnig sylwadau a phrofiadau yn yr ymgynghoriadau allweddol, a oedd yn ystod cylch yr adroddiad hwn yn cynnwys yr Ymgynghoriad ar God Ymarfer drafft.

## **Canllawiau am y Gymraeg ar gyfer Staff**

Cynhyrchwyd amrywiaeth o ganllawiau byr, ymarferol a rhwydd eu dilyn a rhoddir sylw iddynt ar dudalen benodol ar Ganllawiau ar y Gymraeg ar fewnwyd y Cyngor.

Bydd y canllawiau hyn yn cynorthwyo staff i weithredu llawer o'r safonau Darpariaeth Gwasanaeth, Gwneud Polisi a Safonau Gweithredol yn effeithlon. Mae'r canllawiau'n cynnwys disgrifio sut y dylai staff ateb y ffôn yn ddwyieithog, defnyddio templedi dwyieithog allan o'r swyddfa, cyfarchion sylfaenol, ymwadiad ar ohebiaeth a chanllawiau ar sut i sicrhau gwasanaeth cyfieithu. Mae'r rhain yn ddogfennau gwaith sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau o dro i dro.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfiaeth a chrynodeb o'r Safonau sy'n cynnwys cyfrifoldebau staff hefyd ar gael ar y dudalen fewnwyd. Mae'r dudalen fewnwyd yn parhau i gael ei hyrwyddo drwy nifer o dulliau, yn cynnwys y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ehangach.

## **Dewis Iaith Gymraeg ar gyfer Staff**

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol blaenorol anfonwyd llythyr Dewis y Gymraeg at bob aelod o staff pan gyflwynwyd Safonau'r Gymraeg. Cydlynwyd y wybodaeth hon gan reolwyr llinell fel eu bod yn deall dewis iaith eu staff a gofnodwyd yn ganolog ar system adnoddau dynol iTrent y Cyngor.

Ers hynny mae'r Cyngor wedi cyflwyno mynediad hunan-wasanaeth 'MyInfo' i staff i'r wybodaeth bersonol a gedwir ar system iTrent. Mae'r swyddogaeth hon yn golygu fod staff yn cael pob cyfle i ddiweddarau'r wybodaeth hon, sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth ar nodweddion gwarchoddedig a dewis iaith.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Cyngor yn gweithredu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ar gyfer gwahanol gyd-destunau e.e. polisiâu, gweithdrefnau a swyddogaethau; asesiadau seiliedig ar wasanaeth a chynigion am arbedion effeithiolrwydd ariannol, sy'n dynodi arbedion ariannol i'r Cyngor ac yn y blaen. Mae'r broses hon yn parhau i gynnwys elfen y Gymraeg. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at bwysigrwydd dynodi effeithiau 'cadarnhaol' yn ogystal ag effeithiau niweidiol, yn unol â gofynion y Gymraeg. Mae fframwaith yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau i gael ei adolygu.

## **Recriwtio**

Pan fyddant yn recriwtio i swyddi newydd neu wag, mae'n ofynnol i reolwyr lenwi ffurflen Asesiad o'r Gymraeg ar gyfer y swydd. Mae'r wybodaeth yn ffurfio cynnwys y disgrifiad swydd, proses hysbysebu, gweithdrefn cyfweiliad ac unrhyw gyflogaeth ddilynol. Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor yn cadw cofnodion priodol o bob asesiad, a rhoddir adroddiad ar hynny yn yr adroddiad blynyddol.

## **Ymweliad Monitro Perfformiad**

Cafodd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau, Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau ac Arweinydd y Tîm Polisi gyfarfod gyda Dylan Jones, Swyddog Cydymffurfiaeth yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 30 Tachwedd 2019. Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol iawn gyda thrafodaethau'n rhoi sylw i'r meysydd o ddiddordeb canlynol:

- Canfyddiadau gwaith monitro yn 2018-19 yng nghyswllt y sefydliad
- [Hawlio Cyfleoedd 2018-19](#), adroddiad sicrwydd y Comisiynydd 2018-19 sy'n annog sefydliadau i gael trefniadau mewnol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth, cynyddu gallu'r gweithlu i wella darpariaeth, ac annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg;
- Trefniadau mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth;
- Cynyddu gallu'r gweithlu;
- Annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg;
- Cynyddu defnydd a nifer y siaradwyr yn Gymraeg;
- Materion gweithredol.